# COFNODION DRAFFT CYNGOR BRO LLANGELER 28 – 07 – 2025

Cofnodion Drafft Cyfarfod Misol Nos Lun Gorffennaf 28ain 2025 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

1. **07/25 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Ken Howell. Cynghorwyr: Jamie Ayres, Richard Evans, Aled Eynon, Marc Rees, Gethin Richards, Eleri Samson, Antoni Schiavone, Dilwyn Smith,. Adrian Thomas, Clerc – Stella Jones.
   Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Sir - Cyng. H Evans

2. **07/25 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Angharad Edwards, John Crossley, Delyth Evans.

3. **07/25 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor.

4. **07/25 HEDDLU:** – PCSO J Kedward – dwedodd y byddai yn cysylltu gyda'i partneriaid, sy'n delio a thraffig a gor-yrru, am y broblem yn Drefach. Nododd bod yna sawl achos o dorri mewn i faniau a dwyn gwerth miloedd o offer, un yn Nrefach a dau yn CNE ac fe annogodd bobl i sicrhau bod eiddo dan glo.

5. **07/25 COFNODION:**
   i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Mehefin 30ain 2025
   Cynnig Cyng Adrian Thomas Eilio: Cyng Antoni Schiavone

6. **07/25 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
   10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – *delio dan Adroddiadau*
   10. ii.06/24 Les Cae Chwarae Parc Puw – *mae'r cyfreithiwr yn dal i aros am gwaith papur wedi arwyddo oddiwrth Fields in Trust*
   10.ii.06/24 Cae Chwarae Pentrecwrt – *nododd y Clerc ei bod wedi ysgrifennu at CSG yn gofyn a byddent yn barod i gymryd y parc nôl i'w gofal ac a fyddai unrhyw bosibilrwydd o werthu'r darn tir, hefyd a byddai hawl tynnu'r ffrâm lawr. Nododd Cyng G Richards taw eiddo Pentrecwrt yw'r Cynhwysydd Storio a taw eiddo Parc Saron yw'r torrwr gwair sydd ynddo – GR i holi pwyllgor Parc Saron beth maent am wneud a'r peiriant.*
   7.xix. 05/25 Lês Toiledau Parc Puw – *dyw CSG ddim wedi trwsio'r nenfwd hyd yn hyn*
   10.1.06/25 Toiledau Parc Puw – *dwedodd Cyng M Rees bod yr hen ffrâm pren wedi ei glirio o'r safle a bod brigyn neu ddau oedd yn tyfu dros y toiledau wedi ei torri. Mae rhywun wedi tacluso o gwmpas y toiledau hefyd.*

7. **07/25 GOHEBIAETH:**
   i. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 30/06/2025 - 04/07/2025 – *cylchlythyrwyd*
   ii. ebost – CSG – Cau hewl ar frys – *cylchlythyrwyd*
   iii. ebost – CSG – Diweddariad i Gynghorau Tref a Chymuned – *cylchlythyrwyd*
   iv. ebost – Cau ffordd dros dro – yr C1141 o Bentrecwrt, Llandysul - 29.08.2025 – *cylchlythyrwyd*
   v. ebost – CSC – Cais am gau hewl U5406 Felindre, SA44 5DX – *cylchlythyrwyd*
   vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 07/07/2025 - 11/07/2025 - *cylchlythyrwyd*
   vii. ebost – CSG – Cau ffordd dros dro – yr C1307 Hebron i'r Wyddgrug, Pencader - 16.10.2025 – *cylchlythyrwyd*
   viii. ebost – ULlC – TrC Bwletin Mehefin 2025 – *cylchlythyrwyd*
   ix. ebost – CSG – Cau ffordd dros dro – Stryd Lewis a Heol Pentrecwrt, Llandysul - 22.09.2025 – 5 diwrnod – *cylchlythyrwyd*
   x. ebost – Bwyd Sir Gâr Food – Gwahoddiad i Arweinwyr a Grwpiau Cymunedol Llangeler a Llangfiangel – *cylchlythyrwyd*
   xi. ebost – CSG – Proposed 20mph to 30mph Speed Limit Increase on A484 Pentrecagal – *cylchlythyrwyd*
   xii. ebost – ULlC - E-bwletin – *cylchlythyrwyd*
   xiii. ebost – EFFAITH – cylchlythyr allanol pob mis Llais – *cylchlythyrwyd*
   xiv. ebost – CSG – cau ffordd dros dro am 1 diwrnod – yr A486, Pentre-cwrt, Llandysul – 02.11.2025 – *cylchlythyrwyd*
   xv. ebost – St Barnabas trwy anfonwyd i Cyng K Howell – *cylchlythyrwyd – yn dilyn tipyn o drafodaeth cytunwyd nad oedd yn ymarferol cefnogi'r cais*
   xvi. ebost – CSG – Rhwystr Dros Dro am 2 ddiwrnod, Heol Henfryn, Pentre-Cwrt - 02.10.2025 – *cylchlythyrwyd*
   xvii. ebost – CSG – cau ffordd dros dro am 2 ddiwrnod - U5401, Rhiwberfe, Pentre-cwrt - 06.10.2025 – *cylchlythyrwyd*
   xviii. ebost – Pemderfyniad Terfynol Ffedereiddio Ysgol Brynsaron ac Ysgol Gymunedol Cae'r Felin – *cylchlythyrwyd*
   xix. ebost – CSG – Adroddiad Arolwg Cae Chwarae Pentrecwrt Playground Inspection Report – *cylchlythyrwyd*
   xx. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 14/07/2025 – 18/07/2025 - cylchlythyrwyd
   xxi. ebost – CSG – cau ffordd dros dro 1 diwrnod – U5472, Rhos, Llandysul - 28.10.2025 – *cylchlythyrwyd*
   xxii. ebost – CSG – Cynnydd arfaethedig i'r terfyn cyflymder 20mph to 30mph A484 Pentrecagal – *cylchlythyrwyd*
   xxiii. ebost – ULlC – South West Wales bus reform – publicity help – *cylchlythyrwyd*
   xxiv. ebost – CCC – Peidiwch ag anghofio dweud eich dweud yn yr arolwg preswylwyr blynyddol – *cylchlythyrwyd*
   xxv. ebost – Complete Weed Control' dyfynbris i reoli 'Japanese Knotweed o Barc Pentrecwrt – *cytunwyd i'r gwaith cael ei wneud.*

8. **07/25 CYNLLUNIO**
   **CEISIADAU CYNLLUNIO – YMGYNGHORI LLAWN**
   **Cais Ymgynghori llawn**
   **PL/09603** – Codi bloc stablau, creu 'menage', cadw cynhwysydd storio a holl waith cysylltiedig – Tir yn Penclawdd, Rhos, Llandysul, SA44 5HF – *dim barn*

______________________________Cadeirydd ____________________________Dyddiad

COFNODION DRAFFT

**PL/09608** – Cais arfaethedig i godi annedd newydd sengl [byngalo] gyda garej integredig, dreif a holl waith cysylltiedig. Ffurfio mynediad newydd i gerbydau, parcio a lle troi ar gyfer yr annedd presennol – Tir ar rhan o Maesawelog, Drefach Velindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin, SA44 5YN – *dim gwrthwynebiad*

**PL/09615** – Trawsnewid hen gapel yn dŷ preswyl, creu mynediad, estyniad i uned breswyl i greu lle parcio a man troi ynghyd a'r gwaith cysylltiedig – Capel Tabernacle, Pentrecagal, Castell Newydd Emlyn, SA38 9HX – *cytuno a'r cais*

8. **07/25 MATERION ARIANNOL**

1. a.**Anfonebau**

i.TRYWYDD [Gorffennaf] (caniatad i dalu pan daw'r anfoneb ....................... *cytunwyd)*........................£
ii. HMRC ( Gorffennaf) ..........................................................................................................£145.00
iii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG [Hirio Neuadd ] ....................................................................£12.75
iv. CLAIRE REES ...................................................................................................................£100.00
v. CLERC [cost postio AwditCymru] ........................................................................................£9.80
vi. LLOYDS BANK [ffi ] .............................................................................................................£7.75

3. **Apêl am Nawdd Ariannol**

i. St Barnabas – *troi lawr*

10. **07/25 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

1. Cae Chwarae Parc Puw roedd cais llafar wedi ei wneud i osod hysbysfyrddau newydd ar y cae – *yn dilyn ymweliad safle ynghylch gosod yr hysbysfyrddau cytunwyd y dylid cael cais ysgrifenedig yn amlinellug'n union gofynion yr hyn mae Pwyllgor y Parc a Phêldroed am wneud ar y cae. Y clerc i gysylltu a Claire Rees*
2. Mabwysiadu'r Addewid Gwarineb a Pharch – *gwnaed hyn*

11. **07/25 ADRODDIAD PWYLLGOR**

Is Bwyllgor Byrddau Llwybrau Gwlân – yn absenoldeb Cyng D Evans *dwedodd y Clerc bod y pwyllgor wedi gorffen y cam cyntaf. Cyng J Ayres i fynd ati i dynnu lluniau ar gyfer y byrddau. Bydd cyfarfod i'w drefnu ar gyfer dechrau Medi i benderfynu ar yr eirfa briodol i'r byrddau.*

12. **07/25 Dyddiad y Cyfarfod nesaf a lleoliad**

Nos Lun Medi 29ain 2025 am 7.30yh Neuadd yr Eglwys, Penboyr

13. **07/25 SYLWADAU'R CYNGHORWYR**

1. Cyng G Richards – i. cododd y cwestiwn o gyflwr y ffens o gwmpas Parc Puw a bod angen ei wirio ar rhan diogelwch - *cytunwyd dylai ef fel is Gadeirydd a'r Cyng K Howell fel Cadeirydd wneud y gwaith ac adrodd yn ôl i'r Cyngor*
2. Cyng A Schiavone – i. nododd bod arwydd 20mya tu allan i barc Saron yn cael ei guddio gan or-dyfiant brigau – *Cyng G Richards i roi gwybod i bwyllgor y parc*
   ii. mae'r polyn arwydd ger Trewern dal i fod heb ddim arwydd arno – *nodwyd bod nifer o rhain o gwmpas yr ardal*
   iii. dwedodd ei bod yn anodd iawn i fynd i safle we'r Cyngor Sir trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn heriol iawn ac yn aml yn anobeithiol – *dwedodd Cyng H Evans yr edrychai mewn i'r mater.*
3. Cyng. R Evans – i. nododd nad yw'r arwydd am Bancyffordd, a gafodd ei ddifrodi, dal heb ei ail osod
4. Cyng J Ayres – i. stated that had been further damage to Henllan bridge
   ii. mae'r rhwystr ffordd ar y gyffordd o'r hewl o Drefach i Henllan yn dal heb ei drwsio.
5. Cyng H Evans – i. eglurodd bod dim byd gyda'r Cyngor Sir i wneud a diffyg Open Reach i wneud y gwaith trwsio am y broblem sydd wedi bod yn Llangeler yn dilyn difrod tân yn ddiweddar.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00*yh*

___________________________________ Cadeirydd Dyddiad _________________________

COFNODION DRAFFT